**Adroddiad ar**

**Wasanaeth Addysg Amgen Penrhos Avenue**
**Hen Golwyn**
**Bae Colwyn**
**LL29 9HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Mae’r Gwasanaeth Addysg Amgen yn uned cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 16 oed sy’n cael anawsterau’n ymwneud â phroblemau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol neu bresenoldeb.

Mae’r ddarpariaeth wedi’i lleoli yng Nghanolfan Addysg Penrhos Avenue yn Hen Golwyn yng Nghonwy.

Mae’r mwyafrif o’r disgyblion sy’n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Addysg Amgen wedi bod yn tangyflawni o ganlyniad i ymgysylltiad neu bresenoldeb gwael yn eu hysgol brif ffrwd.

Nod y gwasanaeth yw bodloni anghenion disgyblion, sicrhau y gallant wireddu eu potensial a’u helpu i barhau ar eu Llwybr Dysgu ôl-16. Mae pob disgybl yn sefyll arholiadau allanol ac achrediadau galwedigaethol eraill.

Yn ogystal, mae’r Gwasanaeth Addysg Amgen yn darparu gwasanaeth addysg yn y cartref ar gyfer disgyblion ym mhob cyfnod allweddol nad ydynt yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd am resymau meddygol. Os yw’n briodol, mae rhai disgyblion sy’n cael eu haddysgu yn y cartref yn mynychu sesiynau yn y ganolfan.

Caiff disgyblion eu derbyn trwy Banel Cymedroli Gwasanaeth Cynhwysiant Cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, mae 53 disgybl ar y gofrestr. Mae pob un o’r disgyblion wedi’u cofrestru ar gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA) y gwasanaeth ac mae gan ddeg disgybl ddatganiadau o AAA. Mae ychydig o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o’r disgyblion wedi’u cofrestru â’r gwasanaeth a’u hysgolion prif ffrwd.

Daw disgyblion o drawstoriad o gefndiroedd cymdeithasol ac maent yn cynrychioli ystod o alluoedd. Mae gan tua 45% o’r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Daw pob un o’r disgyblion o deuluoedd sy’n siarad Saesneg yn bennaf, er bod lleiafrif ohonynt yn siarad Cymraeg fel ail iaith.

Adeg yr arolygiad, mae gan y Gwasanaeth Addysg Amgen ddirprwy dros dro ac athro canolfan dros dro. Penodwyd cydlynydd presennol y gwasanaeth yn 2008.

Arolygwyd y Gwasanaeth Addysg Amgen ddiwethaf ym mis Chwefror 2007. Yn ystod yr arolygiad diwethaf roedd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Er 2011–2012, symudwyd disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 i Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) arall yn yr awdurdod lleol.

Nid yw’n briodol cymharu’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni â’r cyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros amser oherwydd natur anghenion dysgu’r disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r Gwasanaeth Addysg Amgen yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da;
- mae'r cydlynydd yn darparu arweinyddiaeth glir;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder ac yn dangos ymddygiad gwell ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda;
- mae'r gwasanaeth yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad da; ac
- mae ystod dda o gyfleoedd dysgu ac achredu.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- mae staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion;
- mae'r cydlynydd a'i ddirprwy dros dro wedi nodi llwybrau clir, strategaethau ac adnoddau ar gyfer gwella; ac
- mae partneriaethau cryf â sefydliadau eraill sy'n cryfhau profiadau galwedigaethol a dysgu'r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion ymhellach

A2 Sicrhau y caiff llais y disgybl ei sefydlu'n ffurfiol

A3 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg achlysurol

A4 Cryfhau'r arbenigedd a'r gynrychiolaeth ar y pwyllgor rheoli er mwyn darparu her fwy priodol

A5 Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion gynyddu eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Gwasanaeth Addysg Amgen yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u cyraeddiadau blaenorol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda, ac yn cymhwyso eu medrau'n hyderus i amrywiaeth o weithgareddau a gwersi. Mae disgyblion o bob grŵp yn cyflawni'n gyfartal.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau dysgu sy'n cael eu gosod ar eu cyfer yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae llawer ohonynt yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba mor dda y maent wedi cyflawni yn eu gwersi, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ymhellach.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwelliant parhaus o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac mae pob un ohonynt wedi ennill cymwysterau priodol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae pob un o'r disgyblion wedi ennill cymwysterau a gwobrau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Enillodd disgyblion mwy galluog o leiaf un TGAU (gradd A*-C). Yn 2011, llwyddodd lawer o ddisgyblion i gael gradd 'llwyddo' mewn cyrsiau TGAU.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio ystod dda o eirfa sy'n gysylltiedig â phynciau penodol ac yn mynegi eu syniadau'n glir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac maent yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau. Maent yn hyderus wrth gyfathrebu â phobl eraill ac wrth fynegi eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o wahanol fathau o destun ac maent yn darllen ar goedd yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys ar gyrsiau galwedigaethol fel arlwyo a chynnal a chadw cerbydau.

Mae'r disgyblion mwy galluog yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod eang o dasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu ac yn cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn glir wrth ymchwilio i bynciau penodol. Gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu at wahanol ddibenion gan gynnwys ysgrifennu llythyrau, adolygu gwefan neu greu eu cerddoriaeth rap eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau meddwl a phenderfynu sydd wedi'u datblygu'n dda. Maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i alw dysgu blaenorol i gof, i drafod materion cyfredol ac i gytuno ar atebion i weithgareddau datrys problemau.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) newydd a sefydledig. Maent yn defnyddio eu medrau TGCh yn dda iawn mewn ystod eang o weithgareddau, er enghraifft wrth astudio effaith hysbysebu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn ystod o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn cyfrifo cost gwyliau, yn cynnal a chadw cerbydau neu'n pwyso cynhwysion yn gywir mewn gwers arlwyo.

Mae'r disgyblion hynny sy'n dilyn cwrs Cymraeg ail iaith ffurfiol yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn ddigonol ar sail achlysurol.

Gall disgyblion fanteisio ar ystod gynyddol o gyfleoedd galwedigaethol a lleoliadau profiad gwaith. Mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion yn ymwneud â gwaith, lle maent yn cymhwyso ystod o fedrau fel cyfathrebu yn sicr ac yn hyderus.

Mae pob un o'r disgyblion yn symud ymlaen i gyrsiau mewn coleg addysg bellach lleol neu i brentisiaethau neu gyrsiau hyfforddiant pellach addas. Mae'r cyflawniadau hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth o sut i gadw'n iach. Mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at wneud ymarfer corff rheolaidd fel gweithgareddau ffitrwydd a gemau tîm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o sut i gynnal diet iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth. Mae ganddynt berthynas waith dda â'r staff ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth cadarnhaol cyson ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn bod bwlio'n digwydd yn anaml a bod staff yn mynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn hyderus yn gofyn am gymorth ac yn cydnabod y gallant siarad â rhywun bob amser os ydynt yn poeni. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn frwdfrydig tuag at ddysgu. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn cyrraedd yn brydlon.

Mae ymddygiad mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn parchu'r staff, yn oddefgar o'i gilydd ac yn gwrtais ag ymwelwyr.

Mae presenoldeb wedi gwella yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae presenoldeb ar gyfer 2011-2012 ac ar gyfer tymor cyntaf 2012-2013 yn rhy isel o hyd. Fodd bynnag, mae presenoldeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn sylweddol well nag yr oedd pan oeddent yn mynychu eu hysgol brif ffrwd. Mae nifer y gwaharddiadau wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae gan ychydig iawn o ddysgwyr bresenoldeb gwael parhaus.

Mae disgyblion yn mynegi eu barn yn dda yn ystod cyfarfodydd a thrwy eu cysylltiad dyddiol â staff. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau personol trwy gymryd rhan mewn gosod eu targedau a'u hadolygu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyngor disgyblion ffurfiol ac, er bod cyfathrebu anffurfiol yn dda, ychydig iawn o gyfle y mae'r disgyblion yn ei gael ei leisio eu barn a'u syniadau cyfunol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn dda trwy ystod o weithgareddau cymunedol a galwedigaethol, fel cynnal a chadw cerbydau, trin gwallt ac arlwyo.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn yr hoffent ei wneud yn y dyfodol. Dros amser, mae'r disgyblion mwy galluog yn dysgu sut i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn magu hyder wrth wneud penderfyniadau gwybodus, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu ymhellach neu fyd gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm eang a chytbwys yn darparu ystod dda o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys cyrsiau academaidd a galwedigaethol o fewn Llwybrau Dysgu 14-19. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr sydd wedi'i chynllunio'n dda sy'n rhoi gwybodaeth o ansawdd da i ddisgyblion, gan gynnwys ymwybyddiaeth o gyffuriau, addysg rhyw a diogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae staff yn grwpio disgyblion yn ofalus er mwyn ystyried eu hanghenion dysgu ac ymddygiadol. Mae gan bob disgybl dargedau unigol i'w helpu i ddysgu'n effeithiol.

Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd da i ennill cymwysterau priodol sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Mae'r disgyblion mwy galluog, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref, yn sefyll arholiadau TGAU ac yn gwneud cynnydd da iawn. Mae cysylltiadau effeithiol a chynorthwyol ag ysgolion uwchradd a cholegau lleol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion trwy gyrsiau penodol fel adeiladu a mecaneg ceir.

Caiff disgyblion sydd â diddordeb neu fedr penodol eu galluogi i ymestyn eu dysgu trwy fynychu cyfleusterau arbenigol oddi ar y safle, er enghraifft mewn celf a cherddoriaeth.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gael profiad o fyd gwaith. Er enghraifft, gall disgyblion ddewis cyrsiau'n ymwneud â gwaith fel mecaneg ceir, profiad gwaith mewn siop trin gwallt, neu arlwyo.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan yn y gymuned trwy weithgareddau sy'n eu helpu i fagu hyder a datblygu medrau ar gyfer gwaith tîm, fel cynllunio a chyflwyno'r bore coffi elusennol blynyddol.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd a datrys problemau disgyblion. Hefyd, mae cyfleoedd da, a nodir mewn cynlluniau, i ddisgyblion ddefnyddio medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Caiff cynnydd disgyblion o ran datblygu medrau ei fonitro a'i arfarnu'n rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth ychwanegol mewn llythrennedd, lle bo hynny'n briodol, ac mae'r disgyblion mwy galluog yn cael gwaith ymestynnol mewn mathemateg.

Mae darpariaeth dda ar gyfer addysgu Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, ni chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n ddigonol ar sail achlysurol. Mae ystod o gyfleoedd da ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddeall agweddau ar ddiwylliant Cymru.

Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda. Ym mhob dosbarth, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn addasu'r gwersi'n dda i fodloni eu hanghenion unigol. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu'n effeithiol. Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio adnoddau sy'n adlewyrchu diddordebau disgyblion.

Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n agos â'i gilydd ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol iawn â disgyblion. Mae staff cymorth yn deall eu rôl yn glir ac maent yn darparu cymorth o ansawdd uchel. Ym mhob gwers, mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Maent yn ymdrin â'r ychydig o enghreifftiau o ymddygiad amhriodol yn effeithiol ac yn gyson.

Yn achlysurol iawn, mae athrawon yn rhoi gormod o gymorth i ddisgyblion mewn gwersi, naill ai ar lafar neu drwy orddefnyddio taflenni gwaith.

Trwy asesu disgyblion yn effeithiol iawn pan maent yn ymuno â'r gwasanaeth, mae'r athrawon yn nodi targedau clir ar gyfer disgyblion ac yn galluogi athrawon i gynllunio ar gyfer anghenion unigol. Mae athrawon yn defnyddio asesiadau parhaus yn dda i olrhain cynnydd disgyblion ac i addasu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Er bod ansawdd marcio gwaith disgyblion yn anghyson, mae'r holl staff yn rhoi adborth llafar clir i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod yr hyn y maent wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Ar ddiwedd pob gwers, mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i asesu eu cynnydd eu hunain.

Caiff cynnydd disgyblion ei adolygu'n rheolaidd a chaiff rhieni a gofalwyr wybodaeth lawn. Mae'r staff yn gwahodd rhieni i adolygiadau bob hanner tymor ac yn rhoi adroddiadau ysgrifenedig manwl iddynt yn rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion yn dda. Mae polisïau priodol ar waith sy'n cael eu gweithredu'n gyson er mwyn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Gwneir defnydd effeithiol iawn o ystod eang o wasanaethau arbenigol, fel swyddogion gyrfaoedd, therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg. Dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn cael gwybodaeth ac arweiniad da wrth iddynt ddewis eu cyrsiau. Mae'r cymorth hwn yn cyfrannu'n dda at hybu hunan-barch disgyblion, gwella eu medrau personol a'u paratoi'n dda ar gyfer cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Mae gan bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gynlluniau dysgu unigol penodol sy'n amlygu eu hanghenion. Caiff disgyblion eu cynnwys mewn gosod ac adolygu eu targedau'n rheolaidd. Mae hyn yn eu galluogi i fyfyrio ar eu cynnydd a rhannu cyfrifoldeb amdano.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cydweithio'n effeithiol â staff pwnc a bugeiliol i gynorthwyo pob disgybl i fanteisio ar y cwricwlwm. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio â'i gilydd yn dda iawn. Maent yn wybodus iawn am anghenion penodol eu disgyblion ac yn darparu cymorth cydlynol a medrus.

Caiff yr adolygiadau blynyddol o ddatganiadau eu trefnu'n dda ac maent yn addysgiadol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r Gwasanaeth Addysg Amgen yn gymuned gynhwysol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin eraill â pharch ac ystyriaeth.

Mae gan bob disgybl fynediad cyfartal at y cwricwlwm a'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu gan y gwasanaeth. Mae staff yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth yn dda o fewn y cwricwlwm a thrwy weithgareddau ehangach.

Mae staff yn creu ethos gofalgar, cefnogol a chroesawgar ac yn darparu amgylchedd dysgu symbylol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r ystafelloedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn eang, wedi'u dodrefnu'n briodol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae mannau yn yr awyr agored yn darparu digon o le ar gyfer gweithgareddau hamdden ac maent yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r adnoddau o safon dda ac maent yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. Maent yn cyfoethogi cyflawniad disgyblion yn effeithiol ac yn helpu i'w hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r arddangosiadau deniadol, lliwgar ac addysgiadol ar y waliau yn dathlu llwyddiannau a chyflawniad disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r cydlynydd a'r dirprwy dros dro yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol da. Maent yn rhannu nodau clir a gweledigaeth gyffredinol â'r holl staff. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfathrebu disgwyliadau uchel i bob aelod o'r staff.

Mae'r arweinyddiaeth gref wedi datblygu ffocws clir i feithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol lle y rhoddir blaenoriaeth i ddeilliannau gwell i ddisgyblion.

Mae'r cydlynydd yn arsylwi gwersi'n rheolaidd fel rhan o reoli perfformiad staff. Caiff yr adolygiadau datblygiad proffesiynol sy'n dilyn eu cofnodi, gan nodi targedau unigol ac anghenion hyfforddi yn glir.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n llwyddiannus i roi'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion ar waith drwy gysylltiadau effeithiol â sefydliadau addysgol eraill, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel rhifedd a llythrennedd. Mae'r rhain wedi cyfrannu'n llwyddiannus at wella safonau disgyblion mewn medrau sylfaenol a medrau allweddol.

Mae'r cydlynydd yn darparu adroddiadau tymhorol cynhwysfawr i'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data ar gyraeddiadau, presenoldeb a gwaharddiadau. Mae trefniadau da ar waith i fonitro gwariant ac i arfarnu effaith gweithgareddau ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r pwyllgor rheoli yn rhoi cymorth da i'r gwasanaeth, ond nid yw'n darparu her ddigonol bob tro. Nid yw cyfansoddiad y pwyllgor rheoli yn adlewyrchu natur amlasiantaeth y ddarpariaeth yn llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y cydlynydd a'r dirprwy dros dro ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella.

Mae ansawdd yr adroddiad hunanarfarnu yn dda. Mae athrawon a staff cymorth yn cyfrannu'n weithredol at y broses hunanarfarnu ac at lunio'r cynllun datblygu ysgol canlyniadol. Caiff meysydd i'w datblygu eu nodi a'u blaenoriaethu a chânt eu rhannu â'r pwyllgor rheoli.

Mae ethos cryf yn bodoli lle mae gwaith tîm da yn arwain at gyd-ddealltwriaeth o'r blaenoriaethau ac yn helpu i gyflawni'r holl gamau gweithredu yn y cynllun datblygu. Mae hyn yn sicrhau gwelliant parhaus, er enghraifft, trwy sefydlu ystod eang o gyrsiau a phrofiadau galwedigaethol i ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn eu paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith ac yn eu galluogi i fanteisio ar gyrsiau coleg. Mae'r gwasanaeth wedi bodloni pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn llwyddiannus.

Mae staff yn coladu ac yn dadansoddi data'n effeithiol ac yn drylwyr. Maent yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu i lywio cynlluniau a sicrhau gwelliannau ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr a staff eraill yn cymryd rhan mewn rhwydwaith o gymunedau dysgu proffesiynol â darpariaeth arbenigol eraill yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella hunan-barch disgyblion, cynyddu eu hysgogiad a chodi safonau a gwella deilliannau disgyblion yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau effeithiol ag ystod eang o bartneriaid. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi'r cyfleoedd a deilliannau i ddisgyblion yn sylweddol ac maent yn un o gryfderau'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr.  Mae staff yn cyfathrebu â rhieni'n rheolaidd iawn, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am gynnydd eu plant.

Mae partneriaethau strategol a chynllunio ar y cyd â cholegau lleol yn gwella ystod y ddarpariaeth i ddisgyblion yn sylweddol ac yn cynyddu'r cyfle i ennill cymwysterau. Mae'r bartneriaeth effeithiol ag ysgolion eraill a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyfoethogi darpariaeth Llwybrau Dysgu 14-19 yn dda iawn.  Mae hyn yn arbennig o wir o ran darparu cyrsiau galwedigaethol addas fel arlwyo, cynnal a chadw ceir ac adeiladu.  Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i alluogi disgyblion i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae cyfleoedd da ar gyfer profiad gwaith trwy gysylltiadau sefydledig yn y gymuned leol.  Mae'r lleoliadau hyn yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion o fyd gwaith ac yn aml yn cyfrannu at lawer o ddisgyblion yn ennill cymwysterau allanol.

Mae partneriaeth ag asiantaethau cymorth fel cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu a gwasanaethau iechyd yn cael effaith fuddiol ar les disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r cydlynydd a'r dirprwy dros dro yn rheoli ac yn defnyddio staff ac adnoddau'n dda.  Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac yn cynorthwyo addysgu a dysgu yn effeithiol.

Caiff yr adeilad ei ddefnyddio'n dda er mwyn manteisio i'r eithaf ar y lle a'r cyfleusterau.  Mae'r staff nad ydynt yn addysgu a'r staff gweinyddol yn cyfrannu'n dda at rediad rhwydd y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio arbenigedd staff yn dda ac mae'r athrawon yn rheoli eu hamser yn dda.  Gwna'r athrawon ddefnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu.  Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff anghenion unigol disgyblion eu bodloni a bod safonau uchel mewn addysgu a deilliannau disgyblion.

Caiff cynorthwywyr addysgu eu defnyddio'n dda i gynorthwyo ac arwain disgyblion.

Mae'r pwyllgor rheoli yn monitro ac yn adolygu'r gyllideb a gwariant yn ofalus. Sicrhawyd incwm grant ychwanegol i gyfoethogi a chynnal ystod yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth.

Yng ngoleuni'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion, mae'r Gwasanaeth Addysg Amgen yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

O’r 21 o ddisgyblion a ymatebodd i’r holiadur, dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Teimlai’r rhan fwyaf ohonynt fod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, i wneud eu gwneud a bod y staff yn eu parchu nhw a’u cefndiroedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn dweud y gallant siarad â rhywun os ydynt yn poeni.

Teimlant eu bod yn cael eu haddysgu ynghylch sut i gadw’n iach a bod digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer ohonynt o’r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith a bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac y gallant fwrw ymlaen â’u gwaith.

Dywed llawer o ddisgyblion bod y staff yn eu trin yn deg ac â pharch a bod staff yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Teimlant eu bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, a’u bod yn cael eu helpu i fod yn barod ar gyfer eu hysgol nesaf neu i ddechrau bywyd gwaith.

Teimlai llawer o ddisgyblion fod y staff yn eu helpu i ddeall a pharchu pob o gefndiroedd eraill a’u bod wedi cael cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

Teimlai’r mwyafrif o ddisgyblion fod y staff yn ymdrin ag unrhyw achosion o fwlio yn dda.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Mae pob un o’r 11 o holiaduron a ddychwelwyd yn gadarnhaol.

Dywed pob un o’r rhieni eu bod yn fodlon â’r gwasanaeth a’u bod yn teimlo bod eu plant yn ddiogel ac wedi cael cymorth i ymgartrefu’n dda. Teimlai bob un ohonynt fod eu plant yn gwneud cynnydd da a’u bod yn hoffi’r gwasanaeth.

Teimlai bob un o’r rhieni fod yr addysgu’n dda a bod y staff yn disgwyl i’w plant weithio’n galed a gwneud eu gorau glas. Dywed pob un ohonynt fod gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar yr hyn a ddysgwyd a bod y staff yn trin pob disgybl yn deg ac â pharch.

Teimlai bob un ohonynt fod disgyblion yn cael cymorth ychwanegol priodol ar gyfer unrhyw anghenion unigol penodol a’u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Maent yn teimlo’n gyfforddus o ran mynd at y staff â chwestiynau, awgrymiadau neu broblem a dywedant fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Maent yn deall bod gan y gwasanaeth weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion a bod eu plant yn cael eu helpu'n dda i symud ymlaen i'r ysgol neu'r coleg nesaf, neu'r byd gwaith, ac i ddod yn fwy aeddfed.

Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod ystod dda o weithgareddau'n cael eu cynnig i ddisgyblion, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.  Credai llawer ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Griffiths | Arolygydd Cofnodol |
| Linda Williams | Arolygydd Tîm |
| Pauline Preston | Arolygydd Tîm |
| James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Peter Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Hails | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg